Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

## Cynigion o ran dull gweithredu ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru

**Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Medr:** 19 Rhagfyr 2025.

Ymateb Medr i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-cyflwyno-cronfa-twf-lleol-y-du-yng-nghymru

### Egwyddorion arweiniol

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol craidd ac y dylid eu defnyddio ym mhob rhan o Gynllun Buddsoddi newydd i Gymru?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

Ar y cyfan, mae'r egwyddorion arweiniol yn briodol. Rydym yn cefnogi'r ffocws ar ddeilliannau, sy'n cyd-fynd â dull Medr mewn perthynas ag addysg drydyddol ac ymchwil. Fodd bynnag, mae angen i'r uchelgais sy'n sail i roi'r egwyddorion ar waith fod yn realistig a galluogi cynnydd cyflym wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi fel y gellir cael yr effaith fwyaf posibl.

Mae egwyddor (c) yn nodi'r angen i integreiddio â rhaglenni eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd hi'n allweddol bwysig bod unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â'r Gronfa Twf Lleol yn ystyried gweithgarwch parhaus presennol i sicrhau cydlyniad â pholisïau a mentrau eraill Llywodraeth Cymru a gyllidir gan ffrydiau cyllido eraill. Mae ein hymgysylltiad â Chydbwyllgorau Corfforedig a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi amlygu bod rheoli disgwyliadau gorgyffyrddol Bargeinion Dinesig a Thwf, Parthau Buddsoddi, Porthladdoedd Rhydd ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU, er enghraifft, yn gymhleth ac yn gryn her. Mae angen i'r Gronfa Twf Lleol ystyried hyn yn llawn. Fe'n calonogwyd gan y dull a ddefnyddiwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru i greu'r cydgysylltiad hwn.

Gall Medr gefnogi hyn trwy ddarparu gwybodaeth o safbwynt addysg drydyddol. Mae'n hanfodol sicrhau bod cyllid ar gyfer sgiliau ac addysg drydyddol yn canolbwyntio ar y mannau cywir, heb fylchau na dyblygu. Bydd angen iddi fod yn glir pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a chynnal goruchwyliaeth strategol. Bydd hi hefyd yn bwysig i'r holl randdeiliaid fod yn ymwybodol o'u rôl, a'r hyn y mae eu cyllid yn ei gyflawni yng nghyd-destun y darlun mawr.

Mae egwyddor (d) yn darparu ar gyfer hyblygrwydd, yr ydym yn cytuno ei fod yn angenrheidiol, ond er mwyn cynyddu i'r eithaf y manteision y gellir eu cyflawni mewn cyfnod byr, bydd hi'n bwysig gwneud penderfyniadau strategol cyflym ynglŷn â sut y bydd

y cyllid yn cael ei fuddsoddi, yn hytrach na chanolbwyntio ar gamau cyflym ymlaen yn y tymor byr. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd egwyddor (e) a chynllunio ar sail aml-flwyddyn.

Mae egwyddor (g) yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws ffiniau, yng Nghymru ac yn fwy eang. Byddem yn cefnogi hyn yn gryf, gan nodi nad yw clystyrau diwydiannol o reidrwydd yn gallu cael eu mapio yn ôl daearyddiaeth ranbarthol. Er enghraifft, mae'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd, maes y mae Cymru ar flaen y gad ynddo ledled y byd ac sydd â photensial sylweddol i gyfrannu at dwf economaidd, yn ymestyn dros dde Cymru i gyd. Bydd angen strwythurau llywodraethu priodol a goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ymyriadau sy'n ymateb i alw ledled rhanbarthau lluosog yn gallu cael eu rhoi ar waith yn effeithiol fel bod cyllid yn gallu cael ei reoli'n strategol ac yn gydlynus.

Mae egwyddor (h) yn nodi y bydd ar Gydbwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol angen y gallu a'r capasiti iawn i ddylunio a chyflawni'r Gronfa Twf Lleol. Mae hon yn egwyddor allweddol, ac rydym yn nodi bod ein hymgysylltiad â Chydbwyllgorau Corfforedig wedi amlygu eu bod ar wahanol gamau yn eu datblygiad a bod ganddynt lefelau gwahanol iawn o gapasiti a gallu. Lle mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn dal wrthi'n sefydlu trefniadau llywodraethu a chapasiti staffio priodol, bydd hi'n hanfodol eu bod yn gallu manteisio ar gymorth canolog, gan gynnwys gweithio gyda Medr mewn perthynas â deall cyfleoedd mewn darpariaeth addysg drydyddol. Mae Medr yn rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i sicrhau darpariaeth a phrofiad dysgwyr o ansawdd da, a bydd hi'n bwysig bod darpariaeth a gefnogir gan y Gronfa Twf Lleol yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

Cwestiwn 2: A ddylem ystyried unrhyw egwyddorion eraill?

Gallai fod yn ddefnyddiol estyn yr egwyddorion i gynnwys elfennau a ddylai gael eu hystyried wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â sut y bydd y cyllid yn cael ei wario. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cydlynu a chydgysylltu buddsoddiadau i sicrhau'r budd mwyaf posibl ac osgoi dyblygu gweithgareddau presennol neu o fewn y gronfa; yn ymarferol bydd hyn yn golygu bod yn rhaid wrth strwythurau llywodraethu sy'n galluogi cydlynu ac atebolrwydd strategol, ac ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno archwilio pa wersi ellir eu dysgu o'r model Cynllun Gwella Sgiliau Lleol (LSIP) yn Lloegr. Mae angen i'r strwythurau hyn ystyried cyfrifoldeb Medr am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil hefyd
- Tegwch effaith, o ran ardaloedd daearyddol ac effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; mae mynediad teg at gyfleoedd addysg a sgiliau hyblyg yn allweddol i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a bylchau mewn sgiliau
- Graddfa prosiectau, a pha un a fyddid yn cael yr effaith fwyaf trwy gyflawni ar lefel leol, ranbarthol a/neu genedlaethol.
- Tystiolaeth o barodrwydd a chapasiti amsugnol yn y rhanbarth y bydd ymyriad yn cael ei gyflawni ynddo; bydd adeiladu ar feysydd presennol lle ceir cryfder

economaidd ac arfer da yn helpu i sicrhau cyflawni effeithiol o fewn y graddfeydd amser gofynnol

- Adborth parhaus i sicrhau bod ymyriadau'n dwyn y deilliannau bwriadedig ac yn ymateb i angen economaidd newidiol; dylai hyn gael ei rannu'n eang gyda rhanddeiliaid perthnasol, megis Medr mewn perthynas ag addysg drydyddol ac ymchwil, i sicrhau bod gwersi'n gallu cael eu dysgu a'u bwydo i mewn i ddatblygiad parhaus polisi

**Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol**

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno mai'r materion allweddol a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yw'r rhai cywir y dylem ganolbwyntio arnynt?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cyd-fynd â thystiolaeth y mae Medr yn ei defnyddio i oleuo ei waith ei hun ac a ddefnyddiwyd i ddatblygu ein Cynllun Strategol.

Mae'r materion a nodwyd yn adlewyrchu nifer o'r dyletswyddau strategol y crëwyd Medr i ymdrin â hwy: hybu cyfle cyfartal mewn mynediad at, ac annog cyfranogiad mewn, addysg drydyddol, a chyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol. Mae meithrin capasiti o ran sgiliau a chynyddu arloesi ill dau'n llywio twf economaidd, ac yn dibynnu ar gyfraniad y sector addysg drydyddol ac ymchwil. Mae sicrhau mynediad teg at addysg yn helpu i lywio cynhyrchiant cynhwysol, gan hefyd wella iechyd a llesiant y boblogaeth (gweler er enghraifft Y Berthynas rhwng cymwysterau ac iechyd | Y Sefydliad Iechyd a'r Adolygiad o Lenyddiaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru). Mae Atodiad A yn ystyried y cyswllt rhwng anghydraddoldeb a thwf economaidd, ond dylid cynnal dadansoddiad pellach sy'n ystyried yr ystod lawn o nodweddion gwarchodedig.

Mae Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru'n darparu sylfaen gref ar gyfer cefnogi arloesi cynhwysol, gan annog pobl o bob cefndir i gyfrannu at economi sy'n ffynnu. Ceir cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau trwy'r Gronfa Twf lleol i weithio tuag at wireddu'r uchelgeisiau a nodir yn y Strategaeth.

Gellid rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd mynediad cynhwysol at gysylltedd digidol. Mae seilwaith digidol yn ffactor galluogi tyngedfennol ar gyfer dysgu cyfunol a gweithio o bell, yn enwedig yng Nghymru wledig, a fydd yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd.

Mae Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y DU wedi mapio clystyrau o fusnesau arloesol mewn sectorau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Ddiwydiannol y DU (Map Clystyrau Arloesi). Mae hyn yn darparu tystiolaeth ychwanegol werthfawr i ategu dull seiliedig-ar-leoedd o wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi.

**Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**

Cwestiwn 4: Pa un o'r amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n blaenoriaethu i ddarparu busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol?

Gall Medr fod â rôl allweddol o ran ategu amcanion 1 (creu busnesau newydd a chwmnïau deillio gyda'r potensial i dyfu) a 4 (cynyddu lefelau buddsoddiad mewn capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi).

Mae Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru eisoes yn rhoi cymorth i greu busnesau newydd a chwmnïau deillio, er bod setliad cyllideb Medr ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar ein buddsoddiad trwy'r llwybr hwn. Mae datblygu'r arbenigedd sy'n angenrheidiol i gefnogi gweithgarwch o'r fath yn mynd â llawer o amser, ond ceir eisoes weithgareddau a rhaglenni presennol y gellid eu hehangu neu adeiladu arnynt, gan gynyddu capasiti ac ychwanegu gwerth. Caiff effaith bosibl buddsoddi yn yr amcan hwn ei dangos gan lansiad diweddar Draig Therapeutics, cwmni deillio o Brifysgol Caerdydd, a ddenodd £107m o fuddsoddiad menter. Yng nghofrestr cwmnïau deillio prifysgolion y DU, mae Prifysgol Abertawe'n un o bum darparwr ledled y DU â mwy na 100 o gwmnïau deillio wedi'u creu. Mae tair prifysgol yng Nghymru wedi'u cynnwys ar y rhestr o fabwysiadwyr arfer gorau o ran cwmnïau deillio, lle amcanir at annog buddsoddwyr trwy nodi telerau eglur a theg ar gyfer eu buddsoddiad.

Mae prifysgolion yng Nghymru'n gyson yn cynhyrchu mwy o fusnesau newydd gan fyfyrwyr nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried eu cyfran o garfan myfyrwyr y DU (gweler Eiddo deallusol, busnesau newydd a chwmnïau deillio | HESA ).

Fel a nodir yn y Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, un o'r heriau allweddol wrth geisio cynyddu buddsoddiad busnesau mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yng Nghymru yw amlygrwydd BBChau yn yr economi. Mae'n anodd i BBChau gyfiawnhau'r risg sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn arloesi, neu ddod o hyd i ddigon o gyfalaf ar gyfer costau untro. Mae darparwyr addysg drydyddol (yn brifysgolion a cholegau) yn allweddol i fynd i'r afael â'r her hon gan y gallant rannu cyfleusterau profi, ac arbenigedd, gan alluogi busnesau i ehangu a llywio twf economaidd. Ceir cyfle hefyd i adeiladu ar 50 mlynedd o ymyriadau llwyddiannus ar ffurf Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP).

Mae buddsoddi mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn cynnig potensial sylweddol i drosoli arian ychwanegol, gan gynnwys trwy fuddsoddi mewn cyfalaf ymchwil, a dylai buddsoddiadau trwy'r gronfa twf gael eu targedu i gynyddu'r potensial hwn i'r eithaf. Mae Medr yn dosbarthu oddeutu £8m y flwyddyn trwy'r Gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch, ac yn 2024-25, nododd prifysgolion fod y buddsoddiad hwn wedi trosoli £8.3m o ffynonellau eraill. Mae gan brifysgolion yn nodweddiadol gynlluniau yn eu lle ar gyfer anghenion seilwaith ymchwil a ragwelir a fyddai'n ategu ffrâm amser buddsoddi'r Gronfa Twf Lleol, yn ogystal â galluogi buddsoddiad cyfalaf dan y flaenoriaeth hon.

Mae capasiti Cymru ym maes gweithgynhyrchu traddodiadol yn cyd-fynd yn dda â chryfderau ymchwil yn y sector trydyddol, ac mae'n esblygu i gydnabod yr angen i bontio i dechnolegau carbon is, gan gysylltu â'r flaenoriaeth nesaf. Ceir cyfleoedd sylweddol i drosoli cyllid ychwanegol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Ddiwydiannol, er enghraifft gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Mae Medr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod sut y gall Cymru gynyddu i'r eithaf yr arian y mae'n gallu ei gael trwy'r llwybr hwn. Mae gan Gymru gryfderau ar draws bron pob un o sectorau'r Strategaeth

Ddiwydiannol, yn enwedig mewn perthynas â gweithgynhyrchu uwch (lled-ddargludyddion cyfansawdd a metelau), ynni glân (gwynt ar y môr, hydrogen, niwclear), technolegau digidol, diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd, gan gynnwys data iechyd.

Nid ydym yn cytuno y dylai buddsoddi mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ganolbwyntio dim ond ar weithgareddau sy'n agos at y farchnad, gan bod angen cymorth trwy bob lefel parodrwydd technolegol a thrwy'r biblinell Ymchwil, Datblygu ac Arloesi i gyd. Byddai'n ddefnyddiol mapio ble y ceir ymyriadau cyllid presennol a ble y gallai'r Gronfa Twf ychwanegu gwerth trwy lenwi bylchau yn y biblinell fuddsoddi, gan gynnwys ystyried yr hyn y mae ei angen i gadw cwmnïau deillio llwyddiannus yng Nghymru.

Byddem hefyd yn nodi bod uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu hefyd yn hanfodol i gynhyrchiant busnesau, gan gynnwys mewn sgiliau arwain a rheoli, a sgiliau trosglwyddadwy ehangach. Mae presenoldeb piblinell datblygu sgiliau hygyrch o ansawdd da yn y gweithlu'n hanfodol i ddenu mewnfuddsoddiad. Ceir felly gysylltiadau allweddol rhwng y flaenoriaeth hon a'r un nesaf.

## Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau

Cwestiwn 5: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn, neu eraill, fyddech chi'n eu blaenoriaethu i gefnogi pobl i weithio a chynyddu sgiliau?

Rydym yn cefnogi'r holl amcanion a nodir dan y flaenoriaeth hon, a byddem yn ystyried bod gan Medr rôl arwyddocaol o ran eu galluogi i gael eu cyflawni. Rydym yn nodi bod hwn yn faes lle ceir eisoes nifer o ymyriadau presennol, megis rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a chymorth Medr ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, a lle gellid disgwyl ymyriadau trwy'r Parthau Buddsoddi a'r Porthladdoedd Rhydd hefyd, ac felly bydd osgoi dyblygu ac ychwanegu gwerth yn arbennig o bwysig.

Rydym yn nodi'r dystiolaeth bod cynyddu sgiliau lefel uwch (amcan 3) yn cyfrannu'n gryf at fwy o gynhyrchiant, gan gysylltu'n agos â'r flaenoriaeth flaenorol. Mae Atodiad A yn dangos bod ar Gymru angen rhagor o bobl â sgiliau lefel uwch felly bydd sicrhau buddsoddiad yn y maes hwn yn hanfodol i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'r economi. Ceir cyfleoedd i ehangu darpariaeth prentisiaethau uwch a gradd-brentisiaethau a chymwysterau lefel uwch eraill, yn ogystal â sicrhau bod llwybrau priodol i mewn i'r opsiynau hyn o addysg a hyfforddiant lefel is. Mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau strategol medr a'i raglen barhaus o waith i gryfhau llwybrau dilyniant drwy'r sector trydyddol i gyd.

Mae adborth gan gyflogwyr yn awgrymu eu bod yn cael y system darparu sgiliau bresennol yn gymhleth, ac y gall fod yn anodd i gyflogwyr adnabod ble i fynd am gymorth. Bydd hi'n bwysig bod unrhyw ymyriadau ychwanegol a roddir ar waith dan y flaenoriaeth hon yn eglur o ran sut y maent yn ategu darpariaeth bresennol ac yn cyd-fynd â hi, gan sicrhau cydlyniad i osgoi dyblygu a bylchau, a'u bod yn adeiladu ar ddulliau y dangoswyd eisoes eu bod yn llwyddiannus.

O ystyried y gyfran o'r Gronfa a aseinir i fuddsoddi cyfalaf, gellid rhoi ystyriaeth dan y flaenoriaeth hon i fuddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant sgiliau. Mae gan ddarparwyr addysg drydyddol eisoes biblinell o gynlluniau datblygu y gellid eu symud

ymlaen yn gyflym o fewn y graddfeydd amser byr sy'n ofynnol. Gellid defnyddio'r Gronfa Twf Lleol i ategu ac ychwanegu gwerth at gynlluniau cyllido presennol. Fodd bynnag, bydd angen i fuddsoddiadau o'r fath gael eu hategu gan gynlluniau sy'n dangos sut y bydd cyfleusterau o'r fath yn cael eu cynnal yn y tymor hir, a'r ystyriaeth a roddir i sut y gall unrhyw ddarpariaeth ychwanegol gan ddefnyddio'r cyfleusterau gael ei chyllido, gan gynnwys lle bydd hyn yn dibynnu ar gyllidebau cylchol a ddelir gan Medr.

Rydym yn cytuno â'r angen i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chefnogi pobl ifanc a'r rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai darpariaeth yn y maes hwn ystyried yr angen i ddangos llwybrau eglur i mewn i ddarpariaeth drydyddol bellach, boed yn ddysgu oedolion, addysg bellach, prentisiaethau neu addysg uwch. Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant yn grŵp homogenaidd, ac y bydd angen i ymyriadau ymateb i ystod amrywiol o anghenion, gan gynnwys unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym yn nodi ein bod wedi gweld galw cynyddol am ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, a rôl bwysig dysgu o'r fath i alluogi unigolion i gyfrannu'n llawn i'w cymunedau a'r economi. Mae partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau addysg bellach a gyllidir gan Medr hwythau'n gweld mwy o alw am gyrsiau sy'n paratoi pobl ar gyfer bywyd a gwaith, yn ogystal ag am raglenni cyflogadwyedd eraill. Nid yw cyllideb gyfredol Medr yn ei gwneud hi'n bosibl ehangu'r ddarpariaeth hon i ateb lefelau llawn y galw nas diwellir a allai helpu i ymdrin â lefelau o anweithgarwch economaidd. Bydd angen i benderfyniadau ynglŷn â buddsoddi dan y flaenoriaeth hon ystyried y trefniadau pontio bwriadedig ar gyfer ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan bod llawer o'r rhain, megis y rhaglen Lluosi, wedi llenwi bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd â'u bryd ar ymuno â'r gweithlu.

Mae ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid – er enghraifft wrth ddatblygu ein Cynllun Strategol ac yn ystod ein hymgynghoriad diweddar ar Raglen Brentisiaethau newydd – wedi amlygu bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol yn elfen allweddol o helpu unigolion i adnabod y llwybrau dysgu cywir sy'n eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer bywyd ac ar gyfer gwaith, ac i symud yn llwyddiannus i mewn i gyflogaeth gynhyrchiol, pan ydynt wedi bod yn anweithgar yn economaidd neu'n Rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant. Mae angen i wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o'r fath gynnwys gwybodaeth lawn am y ddarpariaeth sydd ar gael, y mae cryn dipyn ohoni'n cael ei chyllido gan Medr, yn ogystal â bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr ar gyfer adnabod bylchau ac angen nas diwellir. Ceir potensial i ymyriadau yn y maes hwn ychwanegu gwerth at waith presennol Gyrfa Cymru.

Ar hyn o bryd mae Medr yn cyllido'r Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd Wedi'i Dargedu i Fyfyrwyr AU sydd wedi rhoi cymorth llwyddiannus i raddedigion sydd bellaf o'r farchnad lafur o ganlyniad i'w cefndiroedd neu brofiad blaenorol gael swyddi gwerth uchel. Mewn colegau addysg bellach, rydym yn cyllido'r Biwroau Cyflogadwyedd a Menter, sy'n cefnogi dysgwyr â sgiliau cyflogadwyedd allweddol yn ogystal â meithrin sgiliau menter ac entrepreneuraidd ar gyfer y rhai sy'n dymuno sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae'r ddau ymyriad hyn yn darparu sail y gellid adeiladu arni i gyflawni'r amcanion dan y flaenoriaeth hon. Ceir cyfle hefyd i fuddsoddi mewn mentrau sy'n dod â chyflogwyr yn nes at ddatblygu a chyflwyno darpariaeth sgiliau, gan siapio'r cwricwlwm a galluogi darparwyr i ddeall anghenion cyflogwyr.

## Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni

Cwestiwn 6: Pa rai o blith yr amcanion strategol hyn fyddech chi'n eu blaenoriaethu i yrru cyfleoedd o ynni carbon isel a chysylltedd ar gyfer twf a lleihau anghydraddoldebau?

Mae gan ddarparwyr trydyddol Cymru amrywiaeth o arbenigedd mewn technolegau ynni adnewyddadwy, technegau adeiladu gwyrdd, a chysylltteddau digidol, gan gynnwys ymchwil sydd ar flaen y gad, y gellid manteisio arnynt i oleuo'r modd y blaenoriaethir yr amcanion hyn, ac i roi cymorth i'w cyflawni'n effeithiol. Gallai Medr hefyd ddefnyddio ei gysylltiad â Jisc, sy'n arwain arloesi digidol mewn addysg ac ymchwil ledled y DU, i sicrhau bod prosesau penderfynu'n cael eu goleuo gan arfer gorau.

Dylai mentrau dan y flaenoriaeth hon ystyried yr anghenion o ran sgiliau sy'n gysylltiedig â symud tuag at dechnolegau newydd hefyd, gan gysylltu unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ag ymyriadau priodol ar gyfer sgiliau ar bob lefel, gan gynnwys sgiliau lefel uwch. Mae peth wmbredd o weithgarwch yn digwydd mewn cysylltiad â datblygiadau ynni adnewyddadwy yn ne orllewin Cymru sy'n ceisio adnabod anghenion a chydlynu rhanddeiliaid i ymateb, er mwyn paratoi'r gweithlu y bydd ei angen. Mae'r enghraifft hon yn darparu model y gellid adeiladu arno, gan sicrhau y ceir cydlyniad a chydgysylltiad cyfunol.

Yn y pum mlynedd ddiwethaf, mae darparwyr addysg drydyddol wedi wneud buddsoddiadau sylweddol yn eu hystadau i gefnogi uchelgeisiau sero net. Fodd bynnag, ceir angen mawr nas diwellir sy'n adlewyrchu oedran a chymhlethdod nifer o gyfleusterau addysg drydyddol ac ymchwil, a allai gael eu hystyried wrth fynd ar drywydd eu hamcanion. Yn 2024/25, roedd y sector addysg drydyddol yn gallu amsugno dros £20m o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol tuag at ofynion cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni, gyda swm tebyg o leiaf yn dal i fod yn ofynnol.

Rydym yn nodi pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth da i alluogi unigolion i gael mynediad at addysg drydyddol a hyfforddiant ac felly byddai cefnogaeth i amcan 2 hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r ddwy flaenoriaeth flaenorol, sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant a sgiliau (gweler adroddiad Uwchgynhadledd Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru).

## Seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol

Cwestiwn 7: Pa un o'r amcanion strategol hyn fyddech chi'n blaenoriaethu i dargedu buddsoddiad mewn seilwaith lleol i yrru economïau rhanbarthol?

Mae darparwyr addysg drydyddol yn sefydliadau angori yn eu hardaloedd lleol, sy'n agor eu cyfleusterau i gael eu defnyddio gan y gymuned ehangach yn ogystal â busnesau. Felly mae buddsoddi yn eu seilwaith yn cynnig potensial i gyfrannu at yr holl amcanion dan y flaenoriaeth hon, yn ogystal â chefnogi'r meysydd blaenoriaeth eraill.

Gall buddsoddi mewn seilwaith ymchwil ac arloesi ddwyn ystod eang o fanteision. Gall datblygu'r cyfleusterau greu cyfleoedd cyflogaeth a meithrin capasiti sgiliau lleol. Unwaith y maent wedi'u comisiynu, gall y cyfleusterau gael eu defnyddio gan fusnesau i wella cynhyrchiant ac arloesi, gan greu twf economaidd. Mae'r cyfleusterau'n cryfhau ansawdd y sylfaen ymchwil yng Nghymru, gan helpu i ddenu a chadw ymchwilwyr sydd wedyn yn

cyfrannu at yr economi leol. Gall hyn gael ei ategu gan fuddsoddiad mewn cyfleusterau diwylliannol a chymdeithasol, sy'n helpu i wneud ardal yn ddeniadol fel lle i fyw a gweithio.

O ystyried cymhlethdodau cyflawni prosiectau cyfalaf, byddem yn argymell ffocws ar nifer lai o brosiectau mwy, y gellir eu rheoli'n fwy effeithiol i ddwyn y gwerth mwyaf posibl. Bydd cydlyniad â rhaglenni presennol megis y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer colegau AB yn bwysig hefyd.

## Rheoli'r broses bontio

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig hwn o reoli'r newid rhwng y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chyllid Twf Lleol yng Nghymru neu a oes gennych chi unrhyw farn bellach?

Ydym ☐

Nac ydym ☒

Rydym yn cytuno bod angen i'r broses o bontio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei rheoli'n ofalus, gyda ffocws ar brosiectau sydd wedi dangos effaith. Fodd bynnag, byddem yn nodi bod y Gronfa Twf Lleol yn wahanol iawn o ran ei natur i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda'r ffocws ar gyfalaf, ac felly bod angen i'r dull i raddau helaeth fod yn un sy'n cynorthwyo prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gael eu cwblhau gan ddwyn y budd mwyaf posibl, gan mai dim ond cyfran fach y byddir yn gallu parhau â hwy dan y trefniadau cyllido newydd. Fodd bynnag, bydd hi'n bwysig adnabod ble y mae gweithgarwch presennol yn amlwg yn llenwi bwlch, er enghraifft trwy gefnogi llwybr dysgu parhaus, a bod hyn yn cael ei gynnal i osgoi tarfu ar ddysgwyr neu alwadau ychwanegol, annisgwyl ar gyllidebau presennol eraill. Bydd hi'n bwysig nad yw penderfyniadau a dulliau pontio'n cyfyngu ar yr uchelgais na'r cyfle ar gyfer arloesi yn y Gronfa Twf Lleol yn ei chyfanrwydd, a'u bod yn galluogi proses drosglwyddo effeithiol i Gydbwyllgorau Corfforedig maes o law.

Rydym yn cydnabod bod angen amser i gynllunio ar gyfer cyflawni'r gronfa newydd yn effeithiol, ond mae'r dull pontio'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gyflawni, a byddem yn rhoi anogaeth i gyflymu prosiectau newydd i'w cyflawni lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hi'n bwysig bod dyraniadau cyllidebol yn y flwyddyn gyntaf yn cydnabod mai dim ond effaith gyfyngedig fydd yn cael ei chyflawni cyn bod prosiectau newydd yn cael eu comisiynu.

## Buddsoddiadau cenedlaethol a rolau

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

Rydym yn cytuno y bydd hi'n well cynllunio a gweithredu rhai ymyriadau ar lefel Cymru gyfan. Bydd hyn yn galluogi dull gweithredu cydgysylltiedig a all ddwyn y mwyaf o werth trwy osgoi dyblygu a chanolbwyntio ar arfer gorau, a chyfrannu at ddeilliannau teg i ddinasyddion ledled Cymru. Bydd nifer lai o brosiectau mwy'n lleihau i'r eithaf y pwysau ar reolwyr canolog a chapasiti goruchwylio, gan gynyddu effaith yr hyn a gyflawnir i'r eithaf. Bydd hi'n bwysig i Lywodraeth Cymru wneud digon i oruchwylio a chydlynu'r holl weithgarwch a gynllunnir trwy'r gronfa.

Mae ein gwaith i fapio anghenion o ran sgiliau ledled Cymru, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, wedi adnabod nifer o feysydd lle ceir gorgyffwrdd rhwng anghenion y gallai fod yn ddefnyddiol eu hystyried ar gyfer buddsoddiadau cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu, gan hefyd amlygu'r meysydd hynny lle mae'r angen wedi'i leoli'n fwy rhanbarthol. Gallem rannu'r dadansoddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru os oes angen.

Mae'r Gronfa Twf Lleol yn gyfle cenedlaethol i gynyddu buddsoddiad mewn sgiliau ar bob lefel ac arloesi a all lywio cynhyrchiant a thwf economaidd. Gall prosiectau cenedlaethol ddal i ymateb i angen rhanbarthol. Mae'r brif Raglen Brentisiaethau a gyllidir gan Medr yn dangos hyn, lle mae rhwydwaith o ddarparwyr yn gweithio trwy drefniadau consortia i adnabod anghenion economaidd a chydlynu arbenigedd i'w diwallu. Mae hyn yn galluogi darpariaeth i ymateb i anghenion penodol nad yw'n hyfyw eu diwallu mewn un ardal leol o bosibl oherwydd graddfa. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl rhannu arfer gorau ar draws y rhwydwaith mewn perthynas â chyrraedd ac ymateb i anghenion grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ategu ansawdd gwell a dull mwy teg.

Mae buddsoddi mewn seilwaith cenedlaethol – megis cyfleusterau ymchwil – yn gallu dwyn budd lleol hefyd, trwy gyfleoedd cyflogaeth, meithrin capasiti o ran sgiliau, ac effaith economaidd o du defnyddwyr.

Cwestiwn 10: A oes gennych chi farn am unrhyw ymyriadau penodol y dylid eu blaenoriaethu ar lefel genedlaethol yn unrhyw un o'r meysydd blaenoriaeth buddsoddi a ddisgrifir yn Adran 2?

Gall buddsoddiadau cenedlaethol helpu i sicrhau cydlyniad a mynediad teg gan ddal i ymateb i anghenion rhanbarthol. Mae gwerth mewn adeiladu ar fuddsoddiadau a mentrau presennol i ychwanegu gwerth, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Byddem yn cynnig y canlynol fel ymyriadau y byddai'n well eu cyflawni ar lefel genedlaethol:

- Ychwanegiadau wedi'u targedu at y rhaglen brentisiaethau, er enghraifft i gyflawni capasiti mewn sgiliau gwyrdd, gan gefnogi dilyniant i mewn i brentisiaethau lefel uwch, neu i ganolbwyntio ar bobl ifanc (16-24) mewn ymateb i ddatblygiadau diweddar yn Lloegr
- cymorth ledled Cymru gyfan i fasnacheiddio ymchwil, er enghraifft trwy rwydwaith o allu trosglwyddo technoleg neu fuddsoddi mewn cyfleusterau deori

- ymyriadau byr â ffocws pendant ar sgiliau, megis bŵt-camps; fe allai'r rhain ddarparu hyfforddiant sgiliau ar bob lefel sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol yn yr economi neu ymhlith cyflogwyr

## Buddsoddiadau rhanbarthol a rolau

Cwestiwn 11: Oes gennych chi farn ar y meini prawf y dylid eu defnyddio i bennu dyraniadau rhanbarthol, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau?

Oes ☒

Nac oes ☐

Dylai gweithio trwy Gydbwyllgorau Corfforedig helpu i sicrhau cydgysylltiad priodol â ffrydiau cyllido eraill sy’n seiliedig ar leoedd, megis Parthau Buddsoddi a Phorthladdoedd Rhydd. Mae Cydbwyllgorau Corfforedig hefyd wedi sefydlu cysylltiadau â’u darparwyr addysg drydyddol lleol, y gellir adeiladu arnynt i ddarparu ymyriadau dan yr holl flaenoriaethau a adnabuwyd, er nad yw darparwyr addysg drydyddol yn cael eu cynnwys yn ffurfiol yn nhrefniadau llywodraethu a phrosesau penderfynu Cydbwyllgorau Corfforedig, sy’n creu rhywfaint o wendid o ran sicrhau cydgysylltiad priodol. Mae’n bwysig bod Cydbwyllgorau Corfforedig yn ymgysylltu â cholegau a phrifysgolion i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth lawn am yr anghenion a’r cyfleoedd yn eu rhanbarth wrth wneud penderfyniadau am ba fuddsoddiadau fydd yn cael y mwyaf o effaith, fydd yn gydlynus ac osgoi dyblygu. Bydd cysylltiadau Cydbwyllgorau Corfforedig â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (y mae’r strwythur ar eu cyfer yn amrywio fesul rhanbarth) yn hanfodol hefyd i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar anghenion o ran sgiliau.

Mae ein hymgysylltiad â Chydbwyllgorau Corfforedig wedi dangos eu bod ar wahanol gamau yn eu datblygiad a bydd ganddynt felly wahanol lefelau o gapasiti ar gyfer gweithredu buddsoddiadau’n effeithiol trwy’r Gronfa Twf Lleol. Bydd hi’n bwysig bod Llywodraeth Cymru’n gwneud digon o oruchwylio a chydlynu i sicrhau bod yr holl Gydbwyllgorau Corfforedig yn gallu cynnal y dadansoddiad y bydd ei angen i adnabod a blaenoriaethu angen rhanbarthol, a’u bod yn gallu cyflawni’n effeithiol a bod yn atebol am symiau cyllid a allai fod yn sylweddol, gan gynnwys cynyddu i’r eithaf drosoledd o ffynonellau eraill. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Gronfa’n dwyn manteision teg i bobl ledled Cymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod ganddi ddigon o oruchwyliaeth i sicrhau cydlyniad ac osgoi dyblygu rhwng buddsoddiadau lle gwneir penderfyniadau ar lefel ranbarthol.

## Cynlluniau twf rhanbarthol

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gysylltu gyda gweledigaeth 10 mlynedd a chytuno ar gynllun cyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Twf Lleol?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

Rydym yn cytuno y bydd cynlluniau cyflawni'n helpu i ddarparu eglurder ynghylch sut y gellir cynyddu effaith y Gronfa Twf Lleol i'r eithaf. Bydd hi'n bwysig bod y rhain yn strategol, yn hytrach nag yn canolbwyntio ar fanylion llawer o brosiectau bychain. Tra bo gorwel 10 mlynedd o gymorth i roi anogaeth i feddwl am yr hirdymor, bydd yn gryn her cysoni hyn â'r angen i sicrhau bod cyflawni'n digwydd o fewn y tair blynedd y mae cyllid wedi'i gadarnhau ar eu cyfer ar hyn o bryd. Dylai'r cynlluniau dynnu ar ymgysylltiad â'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys y sector addysg drydyddol ac ymchwil. Gall Medr ddarparu mewnwelediadau i roi cymorth i gynllunio mewn perthynas ag addysg drydyddol ac ymchwil i ategu cydgysylltiad ac osgoi dyblygu. Rydym yn nodi'r dull o gyflawni Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol yn Lloegr, a allai ddarparu model defnyddiol.

## Cyflawni lleol

Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw farn am sut y gellir cynnwys darpariaeth leol mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol?

Fel a nodwyd uchod, nifer lai o brosiectau mwy fydd yn dwyn y budd mwyaf posibl. Fodd bynnag, gall prosiectau a gaiff eu llunio ar lefel genedlaethol neu ranbarthol ddal i ddwyn manteision sylweddol mewn ardal leol.

## Gwerthuso a dangos tystiolaeth o gyflawni

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno â'r dull o fonitro a gwerthuso neu eisiau cynnig barn ychwanegol fel sail i ddull newydd o weithredu?

Ydym ☒

Nac ydym ☐

I gynyddu effaith y gronfa i'r eithaf, bydd angen i'r disgwyliadau o ran monitro fod yn realistig, yn enwedig o ystyried y lwfans cyfyngedig o 4% ar gyfer gorbenion. Gellir dysgu gwersi o'r dull o fonitro ymyriadau Cronfeydd Strwythurol Ewrop i oleuo dull cymesur, sy'n seiliedig ar risg. Bydd cymorth canolog ar gyfer gwerthuso'n helpu i osgoi dyblygu a sicrhau bod arfer gorau'n cael ei ddilyn. Dylid cynnwys hyn fel rhan o ddyluniad ymyriadau o'r dechrau. Bydd angen i weithgarwch gwerthuso ystyried effaith ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

## Effaith ar y Gymraeg

Cwestiwn 15: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Mae llawer o gyfleoedd o fewn y blaenoriaethau a adnabuwyd gan Lywodraeth Cymru i gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft trwy sicrhau bod ymyriadau mewn perthynas â sgiliau'n cael eu cynnig yn ddwyieithog, a allai olygu bod angen buddsoddi yng nghapasiti'r gweithlu neu ddatblygu cymwysterau priodol, neu fod buddsoddiadau mewn seilwaith yn cefnogi'r Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant Cymru. Bydd hi'n bwysig sicrhau cydlynu priodol â chyrff eraill â buddiant yn y maes hwn, gan gynnwys Medr, sydd wrthi'n datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg drydyddol, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cwestiwn 16: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio'r cynigion ar gyfer y Gronfa Twf Leol neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Dylai'r effaith ar y Gymraeg gael ei chynnwys yn nyluniad y prosiect o gyfnod ei lunio, gan ystyried ac adeiladu ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus dan Safonau'r Gymraeg.

## Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad

Cwestiwn 17: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch yr ymgynghoriad hwn i fynd i'r afael â nhw:

Mae'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, a'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yn arbennig, dan bwysau ariannol sylweddol. Felly bydd angen i ddisgwyliadau ynghylch cyd-gyllido neu drosoledd yn y Gronfa Twf Lleol fod yn realistig, gyda ffocws ar gyllid llawn lle bynnag y bo'n bosibl.

Ydych chi'n byw yng Nghymru?

- Ydw ☒
- Nac ydw ☐
- Dim ateb ☐

Oes gennych chi fuddiant busnes yng Nghymru?

- Oes ☐
- Nac oes ☒

Darparwch ran gyntaf cyfeiriad eich cartref e.e. CF10

| CF10 |
|---|

Gall ymatebion i ymgyngoriadau gael eu gwneud yn gyhoeddus. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost) ticiwch y blwch.

Cadwch fy ymateb yn ddienw ☐